Awenau Rwdolff (Rudolph's Reins)

Mae'r profiad dysgu yma yn barhad o'r weithgaredd 'Pwyso'r Anrhegion' lle y bu inni greu clorian cyd-bwyso. Yr her oedd i geisio cyd-bwyso'r anrhegion oedd ar y glorian.

O fewn y profiad dysgu yma rydym wedi canolbwyntio ar y sgil o fesur hyd a phellter. Fodd bynnag, mae posib datblygu ystod o sgiliau o fewn y cyd-destun hwn.

Yn y lluniau ar y fideo gallwch weld ein bod wedi creu sled o amgylch y glorian cydbwyso a gosod problem newydd i'w datrys:

Pa mor hir y byddai'n rhaid i awenau Rwdolff fod i gyrraedd y ceirw pellaf ar flaen y sled?

Gall hwn fod yn weithgaredd mesur syml gyda mesurau ansafonol i rai plant neu ymarfer datrys problem gyda mesurau safonol mwy cymhleth i eraill.

Cwestiynau posib i'w gofyn:

Faint o geirw sydd yno? Ydyn nhw mewn parau? Pa mor hir yw ceirw? A oes angen bwlch rhwng pob carw?

Oes angen sicrhau fod y bwlch yr un peth rhwng pob carw iddynt gael digon o le i redeg? Sicrhewch bod y bwlch yr un maint rhwng pob carw. A allan nhw ddyblu'r hyd oherwydd byddai'n rhaid i'r awenau fynd yr holl ffordd at y carw sydd ar y blaen ac wedyn yr holl ffordd nôl at Siôn Corn?

Sut y byddan nhw'n mesur? Mae darparu amrywiaeth o wahanol offer mesur, gan adael i'r plant ddewis eu cyfarpar eu hunain yn hybu'r ymresymu rhifyddol.

Mae'n bwysig nodir agweddau trawsgwricwlaidd y gweithgareddau hyn a gofalu eich bod yn cyflwyno agweddau eraill ar Lythrennedd, Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd, Datblygiad Creadigol ac ati.